STATUTORY INSTRUMENTS

# 1995 No. 45

# EDUCATION, ENGLAND AND WALES

## The Education (Special Educational Needs) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1995

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *3rd January 1995* |
| *Laid before Parliament* | *23rd January 1995* |
| *Coming into force - -* | *13th February 1995* |

In exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 168(2), 301(6) of, and paragraph 2 of Schedule 10 to the Education Act 1993(**1**) as extended by section 26(3) of the Welsh Language Act 1993(**2**), the Secretary of State for Wales hereby makes the following Regulations:

### Title and commencement

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Education (Special Educational Needs) (Prescribed Forms) (Welsh Forms) Regulations 1995 and shall come into force on 13th February 1995.

(2) In these Regulations "the principal Regulations" means the Education (Special Educational Needs) Regulations 1994(**3**).

**2.** The forms set out in the Schedule to these Regulations are hereby prescribed as versions in Welsh which may be used instead of the corresponding forms in parts A and B of the Schedule to the principal Regulations for the purposes set out in regulations 12 and 13 of the principal Regulations.

**3.** Forms substantially corresponding to the forms set out in the Schedule to these Regulations may also be used.

(**1**) 1993 c. 35.
(**2**) 1993 c. 38.
(**3**) S.I.1994/1047.

Signed by authority of the Secretary of State for Wales

*Rod Richards*
Parliamentary Under Secretary of State, Welsh Office

3rd January 1995

## SCHEDULE

Regulation 2

### PART AHYSBYSIAD I RIANT

**At: [enw a chyfeiriad y rhiant]**

1. Ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn y mae copi o ddatganiad o anghenion addysgol arbennig **[enw'r plentyn]** y mae **[enw'r awdurdod]** ("yr awdurdod") yn bwriadu ei wneud o dan Ddeddf Addysg 1993.

2. Gallwch fynegi dewis o blaid yr ysgol a gynhelir, yr ysgol a gynhelir â grant neu'r ysgol arbennig a gynhelir â grant yr hoffech i'ch plentyn ei mynychu a gallwch roi rhesymau dros eich dewis.

3. Os hoffech fynegi dewis o'r fath rhaid i chi wneud hynny heb fod yn hwyrach na 15 diwrnod ar ôl y dyddiad yr ydych yn cael yr hysbysiad hwn a'r copi o'r datganiad neu 15 diwrnod ar ôl y dyddiad diwethaf yr ydych yn bresennol mewn cyfarfod yn unol â pharagraff 10 neu 11 isod, p'un bynnag fydd olaf. Os yw'r 15fed diwrnod yn syrthio ar benwythnos neu ŵyl banc rhaid i chi wneud hynny heb fod yn hwyrach na'r diwrnod gwaith dilynol fan bellaf.

4. Os byddwch yn mynegi dewis yn unol â pharagraffau 2 a 3 uchod mae'n ofynnol i'r awdurdod nodi enw'r ysgol sydd orau gennych yn y datganiad, ac felly trefnu darpariaeth addysgol arbennig yn yr ysgol honno yn unol â hynny, oni bai–

(a) bod yr ysgol yn anaddas ar gyfer oedran, gallu neu gymhwysedd eich plentyn neu ar gyfer ei anghenion addysgol arbennig, neu

(b) y byddai presenoldeb eich plentyn yn yr ysgol yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon i'r plant y byddai'n cael ei addysgu gyda hwy neu â defnyddio adnoddau'n effeithlon.

5. Fel rheol bydd yr awdurdod yn trefnu darpariaeth addysgol arbennig mewn ysgol a gynhelir, ysgol a gynhelir â grant neu ysgol arbennig a gynhelir â grant. Er hynny, os credwch y dylai'r awdurdod drefnu darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer eich plentyn mewn ysgol arbennig na chynhelir mohoni neu mewn ysgol annibynnol gallwch gyflwyno sylwadau i'r perwyl hwnnw.

6. Mae'r ysgolion canlynol, sef ysgolion a gynhelir, ysgolion a gynhelir â grant ac ysgolion arbennig a gynhelir â grant yn darparu addysg **[gynradd/uwchradd]** yn ardal yr awdurdod:

**[Rhestrwch yma bob ysgol a gynhelir, pob ysgol a gynhelir â grant, a phob ysgol arbennig a gynhelir â grant yn ardal yr awdurdod sy'n darparu addysg gynradd, neu rhestrwch bob ysgol o'r fath sy'n darparu addysg uwchradd yn ôl a oes ar y plentyn angen addysg gynradd neu uwchradd. Neu, rhestrwch y wybodaeth y mae ei hangen mewn rhestr a'i hamgau gyda'r hysbysiad hwn.]**

7. Ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn ceir rhestr o'r ysgolion arbennig na chynhelir mohonynt sy'n gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yng Nghymru a Lloegr ac sydd wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

8. Ynghlwm wrth yr hysbysiad hwn ceir rhestr o'r ysgolion annibynnol yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'u cymeradwyo gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg fel rhai addas i dderbyn plant y cynhelir datganiadau addysgol arbennig ar eu cyfer.

9. Mae gennych hawl i gyflwyno sylwadau i'r awdurdod ynghylch cynnwys y datganiad. Os hoffech gyflwyno sylwadau o'r fath rhaid i chi wneud hynny heb fod yn hwyrach na 15 diwrnod ar ôl y dyddiad yr ydych yn cael yr hysbysiad hwn, neu 15 diwrnod ar ôl y dyddiad diwethaf yr oeddech yn bresennol mewn cyfarfod yn unol â'r paragraff nesaf, p'un bynnag fydd olaf.

10. Mae gennych hawl, heb fod yn hwyrach na 15 diwrnod ar ôl y dyddiad yr ydych yn cael yr hysbysiad hwn, i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod drefnu cyfarfod rhyngoch chi a swyddog o'r awdurdod, lle gall unrhyw ran o'r datganiad, neu'r datganiad cyfan, gael eu trafod. Yn enwedig, gellir trafod unrhyw gyngor y mae'r datganiad wedi'i seilio arno.

11. Ar ôl bod yn bresennol mewn cyfarfod yn unol â pharagraff 10 uchod, os ydych yn dal yn anghytuno ag unrhyw ran o'r asesiad o dan sylw, cyn pen 15 diwrnod ar ôl dyddiad y cyfarfod gallwch ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod drefnu cyfarfod neu gyfarfodydd er mwyn trafod y cyngor y credant ei fod yn berthnasol i'r rhan honno o'r asesiad yr ydych yn anghytuno â hi. Byddant yn trefnu bod y person a roddodd y cyngor, neu ryw berson arall y credant ei fod yn

briodol, yn bresennol yn y cyfarfod.

12. Ar ddiwedd y weithdrefn y cyfeirir ati uchod, os bydd yr awdurdod yn cyflwyno datganiad i chi yr ydych yn anghytuno ag ef gallwch apelio at y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig yn erbyn y disgrifiad o anghenion addysgol arbennig eich plentyn, yn erbyn y ddarpariaeth addysgol arbennig a bennwyd gan gynnwys yr ysgol a enwyd, neu, os nad enwyd ysgol, yn erbyn y ffaith honno.

13. Dylid cyfeirio'r holl ohebiaeth â'r awdurdod at y swyddog sy'n gyfrifol am yr achos hwn sef: **[Nodwch yma enw, cyfeiriad a rhif ffôn swyddog yr achos, ac unrhyw rif cyfeirnod y dylid ei ddyfynnu].**

[Dyddiad] [Llofnod y swyddog sy'n gyfrifol]

PART BDATGANIAD O ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

**Rhan 1: Cyflwyniad**

1. Yn unol ag adran 168 Deddf Addysg 1993 ("y Ddeddf") a'r Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994 ("y Rheoliadau"), gwneir y datganiad canlynol gan **[nodwch yma enw'r awdurdod]** ("yr awdurdod") mewn perthynas â'r plentyn y rhoddir ei enw a'i fanylion eraill isod.

**Y Plentyn**

| | |
|---|---|
| Cyfenw .................................... | Enwau eraill .................................... |
| Cyfeiriad cartref .................................... | .................................... |
| .................................... | Rhyw .................................... |
| .................................... | Crefydd .................................... |
| Dyddiad geni .................................... | Iaith y cartref .................................... |

**Rhiant y plentyn neu'r person sy'n gyfrifol amdano**

| | |
|---|---|
| Cyfenw .................................... | Enwau eraill .................................... |
| Cyfeiriad cartref .................................... | .................................... |
| .................................... | .................................... |
| .................................... | Perthynas â'r plentyn .................................... |
| Rhif ffôn .................................... | .................................... |

2. Wrth asesu anghenion addysgol arbennig y plentyn cymerodd yr awdurdod i ystyriaeth, yn unol â rheoliad 10 y Rheoliadau, y sylwadau, y dystiolaeth a'r cyngor a nodir yn Atodiadau'r datganiad hwn.

**RHAN 2: ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG**

[Nodwch yma anghenion addysgol arbennig y plentyn, yn nhermau anawsterau dysgu'r plentyn sy'n galw am ddarpariaeth addysgol arbennig, fel y'u haseswyd gan yr awdurdod.]

**RHAN 3: DARPARIAETH ADDYSGOL ARBENNIG**

**Amcanion**
[Nodwch yma yr amcanion y dylai'r ddarpariaeth addysgol arbennig ar gyfer y plentyn anelu at eu bodloni.]

**Darpariaeth addysgol i fodloni anghenion ac amcanion**
[Nodwch yma y ddarpariaeth addysgol arbennig y cred yr awdurdod ei bod yn briodol i fodloni'r anghenion a nodwyd yn Rhan 2 ac i fodloni'r amcanion a nodwyd yn y Rhan hon, gan nodi'n

arbennig

(a) unrhyw gyfleusterau ac offer, trefniadau staffio a chwricwlwm priodol,

(b) unrhyw ddiwygiadau priodol i gymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol,

(c) unrhyw eithriadau priodol rhag cymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol, yn fanwl, a'r ddarpariaeth y bwriedir ei rhoi yn lle unrhyw eithriadau o'r fath er mwyn cynnal cwricwlwm cytbwys ac eang; a

(d) lle bydd llety preswyl yn briodol, y ffaith honno].

**Arolygu**

[Nodwch yma y trefniadau sydd i'w gwneud–

(a) i arolygu'n rheolaidd gynnydd wrth fodloni'r amcanion a nodwyd yn y Rhan hon,

(b) i bennu targedau er hyrwyddo'r amcanion hynny,

(c) i arolygu'n rheolaidd y targedau y cyfeirir atynt yn (b),

(d) i arolygu'n rheolaidd briodoldeb unrhyw ddiwygiadau i gymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac

(e) i arolygu'n rheolaidd briodoldeb unrhyw ddarpariaeth a roddwyd yn lle'r eithriadau rhag cymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Nodwch yma hefyd unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer adolygu'r datganiad hwn.]

## RHAN 4: LLEOLIAD

[Nodwch yma–

(a) y math o ysgol sy'n briodol i'r plentyn ym marn yr awdurdod ac enw'r ysgol y mae'r rhiant wedi mynegi dewis o'i phlaid neu, lle bo'n ofynnol i'r awdurdod bennu enw ysgol, enw'r ysgol a fyddai yn eu barn hwy yn briodol ac y dylid ei phennu, neu

(b) y ddarpariaeth ar gyfer ei addysg heblaw nag mewn ysgol sy'n briodol ym marn yr awdurdod.]

## RHAN 5: ANGHENION AN-ADDYSGOL

[Nodwch yma anghenion an-addysgol y plentyn y cred yr awdurdod fod darpariaeth yn briodol ar eu cyfer os yw'r plentyn i fanteisio'n iawn ar y ddarpariaeth addysgol arbennig a nodwyd yn Rhan 3.]

## RHAN 6: DARPARIAETH AN-ADDYSGOL

[Nodwch yma unrhyw ddarpariaeth an-addysgol y mae'r awdurdod yn bwriadu trefnu ei bod ar gael neu'n fodlon y bydd awdurdod iechyd dosbarth, awdurdod gwasanaethau cymdeithasol neu ryw gorff arall yn trefnu ei bod ar gael, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ei darparu. Hefyd nodwch amcanion y ddarpariaeth, a'r trefniadau ar gyfer arolygu cynnydd wrth fodloni'r amcanion hynny.]

Dyddiad — Swyddog yr awdurdod sydd wedi'i awdurdodi'n briodol

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations prescribe Welsh versions of the notice to parent and the statement of special educational needs, which are prescribed by the Education (Special Educational Needs) Regulations 1994.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu fersiynau Cymraeg o'r hysbysiad i riant a'r datganiad o anghenion addysgol arbennig a bennwyd gan y Rheoliadau Addysg (Anghenion Addysgol Arbennig) 1994.